

Strategaeth Cyfathrebu 2016-2021

Cynnwys

Strategaeth Cyfathrebu 2016-2021	1
Crynodeb Gweithredol	Error! Bookmark not defined.
1. Cyd-destun	Error! Bookmark not defined.
1.1 2004 - 2009.....	5
1.2 Bwlch.....	5
1.3 Gwelliannau.....	5
1.4 Effaith toriadau.....	6
2 Gweledigaeth, nod ac amcanion	6
2.1 Pwy rydym yn ei gyrraedd ar-lein?	6
2.2 Gwybodaeth ar gyfer Preswylwyr	7
2.2.1 O ble mae preswylwyr y Parc Cenedlaethol yn cael gwybodaeth?	7
2.2.3 Barn y preswylwyr ar waith yr Awdurdod.....	8
3. Delio â beirniadaeth	9
5. Trosglwyddo'r neges – negeseuon allweddol sy'n codi	10
5.1 Trosglwyddo'r neges – Yn lleol	10
5.2 Trosglwyddo'r neges – Yn genedlaethol a rhyngwladol.....	10
5.4 Egluro cynlluniau allweddol	11
5.4.1 Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.....	11
5.4.2 Y Cynllun Datblygu Lleol.....	11
4.6 Monitro pa mor dda rydym yn trosglwyddo'r neges	12
5. Ymgorffori'r Iaith Gymraeg	12
6 . Digidol neu brint – sut bydd y dyfodol yn edrych?	13
7. Gwefannau	14
8. Cyfryngau Cymdeithasol – codi proffil yr Awdurdod a'r gyrchfan farchnata	14
8.1 Cynnwys	14
8.2 Gweithgarwch ac adnodd ar gyfer darpariaethau cyfryngau cymdeithasol	15
8.2.1 Facebook.....	15
8.2.2 Twitter.....	15
8.2.3 Youtube.....	16
8.2.4 Minecraft	16
8.2.5 Gwe-ddarlledu a Sgwrsio Byw	16
8.3 Presenoldeb yr aelodau ar-lein	16

8.4 Presenoldeb dwyieithog ar-lein i'r Awdurdod.....	16
8.5 Camau gweithredu'r cyfryngau cymdeithasol.....	16
9. Ffilmio yn y Bannau	17
10. Digwyddiadau.....	17
11. Rôl dylunio graffeg a ffotograffiaeth	18
11.1 Fframwaith Dylunio Graffeg.....	18
11.2 Ffotograffiaeth.....	18
11.3 Brandio	19
11.4 Cynrychiolaeth.....	19
11.4 Crynodeb Cynllunio graffeg	19
12.1 gloi	19
Atodiad I	21

Crynodeb gweithredol

Strategaeth gyfathrebu'r Awdurdod yw bod mor eglur ac agored ag y bo modd. Cymerir pob cyfle posibl i egluro beth yw gwaith yr Awdurdod, gan gynnwys rhoi cyhoeddusrwydd i gyflawniadau ac amcanion a hefyd i ddeall ac ymateb i farn rhanddeiliaid allweddol, preswylwyr ac ymwelwyr.

Os bydd y strategaeth yn llwyddiannus, erbyn diwedd y cyfnod 2016 - 2021 bydd y preswylwyr lleol yn hyderus bod yr Awdurdod yn cyflawni ei waith yn effeithiol a chlir. Bydd mwy o ddealltwriaeth o amcanion yr Awdurdod. Bydd brwdfrydedd i gydweithio â'r Awdurdod fel partneriaid. Bydd rhagoriaethau arbennig Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn derbyn hyd yn oed mwy o gydnabyddiaeth gan gynulleidfaedd cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae'r strategaeth yn cydnabod gwahaniaethau ym muddiannau cynulleidfaedd lleol a chenedlaethol / rhyngwladol. Mae angen gwybodaeth am sut mae'r Awdurdod yn perfformio mewn perthynas â'i ddyletswyddau strategol ar y bobl leol e.e. ynglŷn â cheisiadau cynllunio a chynlluniau cyllidol. Mae ganddynt hefyd ddiddordeb mewn cael gwybodaeth am weithgareddau hamdden yn y Parc. Mae gan y cyhoedd yn gyffredinol – yn genedlaethol ac yn rhyngwladol – fwy o ddiddordeb mewn cael gwybodaeth benodol am y Parc Cenedlaethol fel lle i ymweld ag ef a beth gellir ei wneud yno. Mae ganddynt hefyd ddiddordeb mewn gwybodaeth am safbwynt yr Awdurdod fel corff cadwraethol – e.e. am ddarganfyddiadau diweddar neu wybodaeth am anifeiliaid a phlanhigion prin. Mae'n bwysig bod y Parc yn meithrin cysylltiadau â Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru wrth ddarparu'r negeseuon allweddol a hefyd yn sicrhau bod swyddogion a Gweinidogion yn deall pa rôl gall yr Awdurdod ei gymryd i gefnogi eu hamcanion.

Mae cyfryngau cymdeithasol wedi dod yn rym llywodraethol yn y byd Cyfathrebu, yn arbennig mewn marchnata ac mae'r strategaeth hon yn archwilio sut mae'r Awdurdod yn ymwneud â chyfryngau cymdeithasol ac yn disgrifio pa gamau sydd angen eu cymryd i barhau i'w defnyddio'n effeithiol - e.e. adnabod sianelau priodol i gyrraedd ei chynulleidfaedd targed a newid y rhain fel bo'r galw, gan ddod o hyd i ffyrdd newydd o ddefnyddio technoleg sydd eisoes yn bodoli, fel Gwe-ddarlledu neu gemau ar-lein fel Minecraft.

Mae'r Awdurdod yn gefnogol i ffilmio masnachol a ffotograffiaeth ac mae'r Tîm Cyfathrebu yn gweithio'n agos gyda'r Wardeniaid i wneud y gorau o bob cyfle i ffilmio fel cyfrwng cyllidol a Chysylltiadau Cyhoeddus i'r Parc, tra'n sicrhau bod y dirwedd yn cael ei gwarchod yn briodol.

Mae'r Tîm Cyfathrebu yn goruchwyllo banc corfforaethol yr Awdurdod o ffotograffau, brandio a gwaith dylunio sydd erbyn hyn yn cael ei ddarparu drwy gytundeb fframwaith yng ngofal y Rheolwr Cyfathrebu. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn darparu gwasanaeth i bob preswylwr ac ymwelydd ac mae'n bwysig bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ffotograffau a'r pynciau a welir ym mhresenoldeb ar-lein a deunyddiau print y Parc Cenedlaethol. Dylai anghenion amrywiol y boblogaeth y mae'r Awdurdod yn ei gwasanaethu gael eu hystyried wrth gynllunio, dylunio a dosbarthu deunyddiau, printiedig ac ar-lein. Dylai ffotograffau gynnwys cynrychiolaeth o genedligrwydd, oedran, rhyw a gallu gwahanol. Dylai'r wybodaeth gael ei chyflwyno mewn iaith hawdd ei deall heb acronymau.

Mae Cyfathrebu ynglŷn â gwaith yr Awdurdod hwn yn rhan o swydd bob dydd pob aelod o staff a phob Aelod o'r Awdurdod ac i raddau, mae'n gyfrifoldeb ar ein gwirfoddolwyr. Bwriad y strategaeth hon yw cynnig trosolwg strategol o ble dylai'r Awdurdod ganolbwyntio ei adnoddau, ardaloedd ble dylai'r Awdurdod wneud mwy o waith i sicrhau ei fod yn cyrraedd ei lawn botensial ac i gynnig mewnwelediad ar sut mae'r tîm cyfathrebu yn gweithio i ddarparu amcanion cyfathrebu'r Awdurdod dros y pum mlynedd nesaf.

1. Cyd-destun

Mae'r strategaeth hon yn ddiweddariad o'r un gyntaf a gafodd ei chynhyrchu ar gyfer yr Awdurdod yn 2004 ac mae'n cyfeirio at sut orau y gall yr Awdurdod gyfathrebu yn ystod y cyfnod nesaf o bum mlynedd 2016-2021.

1.1 2004 - 2009

Roedd y strategaeth wreiddiol dros y cyfnod 2004-2009 ac roedd yn canolbwyntio ar gael staff ac aelodau i gydweithio â Thîm Cyfathrebu'r Awdurdod i hybu gwaith yr Awdurdod drwy'r wasg, y wefan a chysylltiad gyda'r cyhoedd yn gyffredinol. Roedd y pwyslais ar ddisgyblaeth gorfforaethol wrth sefydlu ac yna annog staff i ddilyn protocol wrth gynllunio a darparu prosiectau oedd yn cynnwys amcanion cyfathrebu.

Mae'r strategaeth newydd yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd dan y strategaeth wreiddiol hon. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o staff ac aelodau yn deall ac yn dilyn y protocolau. Mae ar ddeall yn gyffredinol bod yna dîm sy'n gofalu am y wefan, yn ysgrifennu datganiadau i'r wasg ac yn cymryd gofal o'r cyfryngau cymdeithasol dros yr Awdurdod. Gwahoddir staff i gyfrannu i'r rhain yn gyson. Mae gofyn pwysleisio'n gyson y protocol sy'n mynnu bod staff ac aelodau'n cysylltu â'r Tîm Cyfathrebu cyn siarad ag aelodau'r wasg gan fod hyn yn diogelu'r unigolyn a'r Awdurdod.

Ers cyhoeddi'r strategaeth wreiddiol, mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi dod yn rym llywodraethol yn y byd Cyfathrebu, yn arbennig mewn marchnata ac mae sut mae'r Awdurdod yn ymwneud â chyfryngau cymdeithasol yn elfen bwysig o'r strategaeth newydd.

1.2 Bwlch

Mae bwlch wedi bod rhwng diwedd y strategaeth ddiwethaf a dechrau hon. Yn ôl yn 2006-08 cafodd rhai penderfyniadau cynllunio a wnaed cyn hynny gan yr Awdurdod eu gwrthdroi yn gyhoeddus ac anelwyd llawer o feirniadaeth tuag at yr Awdurdod, yn arbennig at y gwasanaeth cynllunio.

Ar y llaw arall, dydy'r achosion hyn ddim wedi amharu ar yr ymwelydd cyhoeddus – mae ffigurau ar gyfer ymwelwyr yn awgrymu mai'r tywydd sy'n effeithio fwyaf ar nifer yr ymwelwyr¹ i'r Parc. Yn genedlaethol a rhyngwladol ceir yn gyffredinol ymateb cadarnhaol i'r Parciau Cenedlaethol fel brand a cheir brwdfrydedd dros amcanion y sefydliad. Mae'r strategaeth hon yn ateb gofynion cyfathrebu'r ddwy gynulleidfa – preswylwyr a chenedlaethol/rhyngwladol.

Arweiniodd ail-strwythuro yn 2009-10 at reolaeth newydd o fewn y sefydliad ac agwedd newydd at y defnydd o gyfathrebu fel adnodd allweddol i ail-adeiladu dealltwriaeth o waith yr Awdurdod ac o ragoriaethau arbennig y Parc Cenedlaethol. Mae llawer o waith ail-strwythuro'r Awdurdod wedi digwydd rhwng y ddau gyfnod er mwyn cael sefydliad sy'n perfformio'n well ac un sy'n fwy atebol. Roedd y Tîm Rheoli wedi ymrwymo i wella perfformiad fel y cam cyntaf ac yna cyfathrebu am y gwelliant.

¹ Mae ffigurau STEAM yn dangos cynnydd cyson oni bai lle bydd y tywydd yn wael a bydd gostyngiad yn y rhifau – gweler <http://www.beacons-npa.gov.uk/wp-content/uploads/oldsite/the-authority/working-in-partnership/tourism-new/sustainability-1/steam/BreRepRR12.pdf>

1.2.3 Gwelliannau

Mae cyflwyno gwasanaeth cynllunio effeithiol wedi bod yn allweddol i wella perfformiad yr Awdurdod – mae ystadegau diweddar (2015/16) yn dangos mai gwasanaeth cynllunio'r Awdurdod yw

un o'r rhai gorau o ran perfformiad yng Nghymru¹. Mae'r Awdurdod wedi croesawu cyfleoedd i gyfarfod â phreswylwyr ac wedi ymrwmo i fod mor agored â phosibl yn eu hymwneud â gwahanol faterion. Mae'r Awdurdod wedi bod yn rhagweithiol yn cynnig cyfleoedd ffurfiol i Aelodau a'r cyhoedd yn gyffredinol archwilio. Ers 2009, mae Uwch Swyddogion wedi mabwysiadu polisi o fynychu cyfarfodydd cyhoeddus i drafod pryderon am waith yr Awdurdod ac unrhyw gŵ ynion. Mae'r Awdurdod wedi manteisio ar unrhyw gyfle a gynigwyd gan dechnoleg newydd i fod ar flaen y gad ym myd Awdurdodau Lleol yn cynnig cyfarfodydd ar we-ddarllediad ac fel mae'r ystadegau yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn yn dangos, mae'r cynnig hwn wedi cael ei ddefnyddio gyda brwdfrydedd cynyddol gan y cyhoedd. Mae trosglwyddo gwybodaeth am y gwelliannau hyn yn hollbwysig er mwyn i'r Awdurdod allu gweithredu'n effeithiol. Credwn y bydd adnewyddu hyder yn yr Awdurdod i weithredu'n effeithiol yn annog ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth. Bydd y Strategaeth ar gyfer 2016-2021 yn adeiladu ar hyn ac yn awgrymu sut gall yr Awdurdod barhau i drosglwyddo gwybodaeth am y gwelliannau y mae wedi'u gwneud.

12.4 Effaith toriadau

Mae'r sector cyhoeddus wedi gweld toriadau sylweddol yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf ac mae'r bygythiad o doriadau llym pellach fel cwmwl uwchben ffrâm amser y cynllun hwn. Mae effeithiau arfaethedig tebygol y toriadau hyn ar y strategaeth yn bwysig wrth gynllunio gwaith cyfathrebu ar gyfer y dyfodol. Ar ôl pwyso a mesur, er mwyn bod yn gost effeithiol, byddwn yn defnyddio datganiadau i'r wasg a chyfryngau cymdeithasol yn hytrach na thalu wrth hysbysebu am adnoddau staffio, er bod cyllid yn dal i fodoli ar gyfer hyn yn 2016. Bydd y strategaeth hon yn cael ei hadolygu yng ngoleuni'r argymhellion sy'n codi o adolygiad tirweddau dynodedig yng Nghymru i sicrhau ei fod yn dal yn addas.

Mae pwysigrwydd egluro a hyrwyddo gwaith Awdurdod y Parc Cenedlaethol i Lywodraeth Cymru ac i Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ei ddynodi i ennill cydnabyddiaeth am waith ac arweiniad ardderchog Awdurdod y Parc Cenedlaethol mewn meysydd sy'n flaenoriaeth gan y Llywodraeth, fel iechyd a lles a lleihau tloedi, yn ogystal â chyflawni pwrpas a dyletswydd strategol yr Awdurdod.

2 Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion

Mae strategaeth gyfathrebu'r Awdurdod yn bodoli er mwyn egluro beth yw gwaith yr Awdurdod, gan gynnwys rhoi cyhoeddusrwydd i'w lwyddiannau a'i amcanion, a hefyd i ddeall ac i ymateb i farn rhanddeiliaid allweddol, preswylwyr ac ymwelwyr. Os bydd y strategaeth yn llwyddiannus, erbyn diwedd y cyfnod 2016 - 2021 bydd y preswylwyr lleol yn hyderus bod yr Awdurdod yn cyflawni ei waith yn effeithiol a chllir. Bydd mwy o ddealltwriaeth o amcanion yr Awdurdod. Bydd brwdfrydedd i gydweithio â'r Awdurdod fel partneriaid. Bydd rhagoriaethau arbennig Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn derbyn hyd yn oed mwy o gydnabyddiaeth gan gynulleidfaoedd cenedlaethol a rhyngwladol.

2.1 Pwy rydym yn ei gyrraedd ar-lein?

Mae presenoldeb gwefan yr Awdurdod yn cyrraedd nifer sylweddol o unigolion.

Rhwng 1 Ebrill 2015 a 7 Mawrth 2016:

www.breconbeacons.org - derbyniwyd 546,158 ymwelydd ar-lein

www.beacons-npa.gov.uk - derbyniwyd 111,441 ymwelydd ar-lein

¹ Yn y ddau chwarter olaf o 2014 dangosodd ystadegau fod yr Awdurdod yn un o'r tri Awdurdod Cynllunio gorau yng Nghymru o ran perfformiad.

Ers Mawrth 2016 mae'r dudalen Facebook wedi derbyn mwy na 1800 o ddilynwyr ac mae mwy na 7,200 wedi Trydaru – mae'r ddau'n cael eu diweddarau yn ddyddiol fel arfer. Defnyddir hwy i ddangos rhestr dyletswyddau ar gyfer y penwythnos. Yn nes ymlaen yn y papur hwn (tud 13-15) ceir gwybodaeth fanwl am sut mae presenoldeb ar-lein yr Awdurdod, gan gynnwys y defnydd o'r Cyfryngau Cymdeithasol, yn cael ei reoli i rannu negeseuon allweddol am waith yr Awdurdod.

Ar gyfartaledd, rydym yn ymateb i dros 1500 o ymholiadau a sylwadau'r flwyddyn o'r ddwy brif wefan a cheisiadau am wybodaeth yw'r rhain yn benodol.

Ers 2012 mae'r Awdurdod wedi bod wrthi'n gwe-ddarlledu cyfarfodydd yn fyw ac mae felly wedi darparu cofnod a ellir ei lawrlwytho o'r cyfarfodydd fel archif.

Mae'r tabl isod yn dangos niferoedd gwyllo'r gwe-ddarllediadau byw a'r deunydd archifol ers cychwyn y cynllun hyd at Fawrth 2016:

Cyfarfod	Nifer y cyfarfodydd a we-ddarllwyd	Gwelediad byw	Gwelediad byw ar gyfartaledd	Gwelediad archifol	Gwelediad archifol ar gyfartaledd	Cyfanswm gwelediau	Cyfarfoddd gwelediau/cyfarfodydd
Awdit a Chraffu	24	244	10	11,361	473	11,605	484
Awdurdod Parc Cenedlaethol	31	1,125	36	21,780	703	22,905	739
Cynllunio a Llwybrau Tramwy	31	930	30	20,692	667	21,622	697
Cyfarfodydd eraill	7	156	22	3,946	576	4,102	586
Cyfanswm	93	2,455	26	57,779	621	60,234	648

Fel mae'r cofnodion hyn yn dangos, ar gyfartaledd, mae pob cyfarfod yn cael gwelediad 648 gwaith. Ar y funud, ni ellir dweud oddi wrth y data sawl unigolyn sy'n gweld pob cyfarfod na ble maen nhw, ond mae'n debygol mai yn lleol y byddai'r mwyaf o ddiddordeb yn y cyfarfodydd. Mae'r ffigur hwn yn dangos diddordeb sylweddol yn y gwe-ddarllediad ac mae mwy o waith yn cael ei wneud i weld sut i ddefnyddio gwe-ddarlledu fel cyfrwng i gyrraedd y cyhoedd sydd â diddordeb.

2.2 Gwybodaeth i Breswylwyr


2.2.1 O ble mae preswylwyr y Parc Cenedlaethol yn cael eu gwybodaeth?

Mae gan yr Awdurdod amrywiol ddata wrth law i gael syniad o sut mae'r cyhoedd yn gweld ei waith. Yn 2013 gwnaeth yr Awdurdod arolwg o breswylwyr y Parc Cenedlaethol a ddaeth ag ymateb o bob rhan o'r Parc Cenedlaethol. Er hynny, mae'r canfyddiadau yn tueddu i ogwyddo tuag at bobl hŷ n, gyda 39% o'r rhai a ymatebodd yn 65+². Mae'r Cyfrifiad Cenedlaethol diweddaraf (2011)³ yn dangos bod 23% o boblogaeth y Parc dros 65+.

Mae data o'r Cyfrifiad sydd wedi'i ddiweddarau'n fwy diweddar yn awgrymu bod y defnydd o'r we gan bobl 65+ yn y DU yn gymharol isel (Doedd 13.5% o bobl 65+ erioed wedi defnyddio'r we erbyn

chwarter cyntaf 2014). Mae'r graff (Ffig 17) yn dangos sut mae preswylwyr yn derbyn gwybodaeth am waith yr Awdurdod. Mae'n glir bod adroddiadau papur newydd a sgwrsio ar lafar yn ddylanwadol iawn i'r grŵp hwn - sydd

Figure 17: How find out about the work of the National Park Authority



heiniog, Awst 2013, Ymchwil MEL
ata/index.html

fel y buasem yn ei ddisgwyl, o sylwi ar ogwydd oedran y rhai a ymatebodd i'r arolwg a data'r Cyfrifiad ynglŷn â'r defnydd o'r we. Dylid nodi er hynny bod 36% o'r rhai a ymatebodd yn amwys a gredent yr hyn oedd yn cael ei adrodd yn y papurau newydd ac roedd 33% arall yn dweud nad oeddent yn eu credu.


Er hyn roedd 63% yn dweud eu bod yn dod i wybod am waith yr Awdurdod drwy'r papur newydd lleol. Mae diddordeb aruthrol ym mherfformiad yr Awdurdod a cheir llawer o sylwadau, yn arbennig mewn perthynas â'i ddyletswyddau statudol. Mae hyn yn awgrymu y bydd angen i'r tîm Cyfathrebu barhau i fuddsoddi peth adnodd i adeiladu perthynas waith gref gyda newyddiadurwyr a golygyddion y wasg leol a chynnig briffiau a datganiadau i'r papurau lleol. Mae'r cyfle i ddylanwadu ar ba negeseuon mae'r cyhoedd yn eu derbyn ar lafar o bosibl yn dibynnu mwy ar berfformiad y sefydliad nag ar waith y tîm Cyfathrebu, ond byddai creu delwedd fwy cadarnhaol o Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn debygol o fod yn fodd o ennyn sylwadau cadarnhaol gan y cyhoedd.

Fel mae data 2.1 uchod yn ei ddangos, byddai amcangyfrif ceidwadol yn rhoi presenoldeb ar-lein yr Awdurdod yn 2016 ar dros 500,000 o bobl. I roi'r ffigur hwnnw mewn persbectif, poblogaeth preswylwyr y Parc Cenedlaethol cyfan yw 33,000. Nid yw'n bosibl dweud faint yn union o'r unigolion sy'n cael mynediad i'r wefan sy'n byw'n lleol ond gan fod arolwg y preswylwyr wedi crybwyll bod 40% wedi derbyn gwybodaeth o'r wefan, mae'n ymddangos bod hyn yn ffordd allweddol o dderbyn gwybodaeth gan o leiaf draean o breswylwyr. Braidd yn annisgwyl, mae'r arolwg yn dangos eu bod yn derbyn gwybodaeth yn y Canolfannau Ymwelwyr. Yn amlwg, mae'r teitl yn gamarweiniol ac mae'r ystadegyn hwn yn amlygu pwysigrwydd gallu cael gafael ar wybodaeth ynglŷn â gweithgareddau hamdden yn y Parc Cenedlaethol i'r preswylwyr. Mae'n golygu y dylai'r Awdurdod ystyried y gynulleidfa hon wrth ystyried y prif negeseuon y mae'n eu cyflwyno i ymwelwyr gan y bydd y preswylwyr hefyd yn eu derbyn. Fwyfwy, mae awdurdodau lleol sy'n brin o arian yn torri ar y gwasanaeth gwybodaeth sy'n cael ei ddarparu gan y Canolfannau ac mae'n bwysig i'r Parc Cenedlaethol ystyried y dylai anghenion y preswylwyr gael eu hystyried wrth ddarparu ffynhonnell wybodaeth arall - e.e. gallai'r Tîm Cyfathrebu ddatblygu rhan o'r wefan ar gyfer Preswylwyr yn edrych am weithgareddau hamdden ar gyfer eu teuluoedd a'u ffrindiau.

2.2.3 Barn y Preswylwyr am waith yr Awdurdod

Mae data'r arolwg (y tabl isod) yn dangos bod bodlonrwydd mawr gyda'r hyn y gellid ei ystyried fel llawer o waith mwyaf pwysig yr Awdurdod. Roedd 80% o'r rhai a ymatebodd yn fodlon gyda gwaith cadwraeth yr Awdurdod, dros 70% yn fodlon gyda'r gwaith ar lwybrau, cadwraeth adeiladau hanesyddol, gwarchod bywyd gwyllt a helpu pobl i fwynhau'r Parc Cenedlaethol. Prif faes pryder yw'r ymddieithrio honedig mae'r cymunedau lleol yn ei deimlo oddi wrth yr Awdurdod gan mai dim ond 19% oedd yn teimlo bod yr Awdurdod yn gwranddo ar ac yn ymateb i'w barnau. Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud i wella hyn eisoes wedi'i nodi uchod.

Figure 25: Importance and satisfaction with the National Park Authority activities



Mae tystiolaeth a geir o adborth yn awgrymu bod bodlonrwydd cyffredinol - mae tudalennau cyfryngau cymdeithasol a'r gwefannau i gyd yn cynnig y cyfle i wylwyr wneud ymholiadau a chynnig adborth. Yn ystod y flwyddyn 2014/15 derbyniwyd 25 cwyn swyddogol a derbyniwyd canmoliaeth am y gwasanaeth yn ysgrifenedig gan 43 aelod o'r cyhoedd.

3. Delio â beirniadaeth

Mae pob corff cyhoeddus yn derbyn beirniadaeth fel rhan iach o broses ddemocrataidd. Mae penderfyniadau yn cael eu gwneud yn ddyddiol sy'n effeithio ar fywyd pobl ond nid yw'r rhain bob tro yn cael eu croesawu a bydd apelio yn eu herbryn neu brotestio. Mae gan yr Awdurdod weithdrefnau priodol yn eu lle i ddelio ag apeliadau o'r fath. Dylai unrhyw sylwadau cyhoeddus a wneir gan yr Awdurdod ynglŷn â'r rhain fod mor eglur a llawn gwybodaeth ag sy'n bosibl yn ôl gofynion y gyfraith a'r weithdrefn. Yn ôl ein strategaeth, os gofynnir am eglurhad ac mae'n bosibl cael un, dylai'r adran Gyfathrebu ei roi. Os gwneir camgymeriad, ein polisi ni yw cynnig eglurhad.

Weithiau mae beirniadaeth a ellir profi ei bod yn annheg yn cael ei anelu at yr Awdurdod yn gyhoeddus. Fel arfer byddwn yn penderfynu sut i ymateb i'r fath feirniadaeth ar sail yr achos unigol. Un o'r dulliau mwyaf defnyddiol yw cynnig cyfarfod un i un a rhoi'r cyfle i drafod y pwnc mewn manylder. Mae'r rheini sy'n cytuno i'n cyfarfod yn aml yn cydnabod bod ganddynt well gwybodaeth ar ôl y cyfarfod ac weithiau maent yn dweud eu bod wedi newid eu meddyliau ar ôl derbyn mwy o wybodaeth.

4. Adnabod ein cynulleidfaoedd allweddol

Gwelodd Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol bod gan nifer sylweddol o grwpiau ddiddordeb byw yng ngwaith Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Fel rhan o'i waith yn diweddar Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol mae'r swyddog perthnasol yn cynllunio i ddarparu a chynnal bas data swyddogol o gyfranddalwyr a bydd gan y Tîm Cyfathrebu gyfrifoldeb dros anfon gwybodaeth neu negeseuon ac ymgynghori â'r grwpiau hyn.

Mae gwybodaeth am randdeiliaid fel arfer yn cael ei reoli o fewn yr adran sy'n delio amlaf â hwy, fodd bynnag bydd deunydd marchnata neu ar gyfer y wasg yn cael eu hanfon at y grwpiau hyn a bydd Cyfathrebu yn gweithio'n agos gyda "pherchennog" y grŵp i wneud hyn.

Yn ogystal â'r rhestr o randdeiliaid, nododd y prosiect brandio cyrchfan rai grwpiau a oedd yn fwyaf tebygol o fod â diddordeb yn y Bannau fel cyrchfan gwyliau. Mae disgrifiad o'u nodweddion tebygol yn arbennig o ddefnyddiol wrth drafod cyfathrebu ynglŷn â chyrchfannau penodol.

5. Trosglwyddo'r neges – negeseuon allweddol sy'n codi

Er mwyn hyrwyddo gwaith yr Awdurdod mae'r Tîm Cyfathrebu yn darparu cyhoeddusrwydd, cynnal tudalennau cyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau i ddisgrifio'r prosiectau a'r gweithgareddau mae staff, aelodau a gwirfoddolwyr o bob adran o'r sefydliad yn ei wneud ac weithiau gweithgareddau a wneir gan eraill. Mae Swyddogion yr adran Gyfathrebu yn trafod y gweithgaredd a'r rheswm dros ei hyrwyddo gyda'r prif swyddogion sy'n gweithio ar y cynllun. Mae'r trafodaethau hyn yn arwain at ailadrodd negeseuon allweddol er mwyn pwysleisio hyrwyddo'r gweithgaredd yn arbennig a'r sefydliad yn gyffredinol.

Mae adnabod pa negeseuon allweddol sy'n fwyaf addas ar gyfer pob cyfathrebiad yn deillio o sgwrs rhwng y swyddog(ion) sy'n ymwneud fwyaf â'r prosiect ac aelod o'r Tîm Cyfathrebu sy'n gweithio gyda nhw i'w hyrwyddo ond yn y bôn, daw'r negeseuon oddi wrth y tîm sy'n rhedeg y prosiect. Bydd pob neges allweddol (ac yn ddelfrydol pob cyfathrebiad) mewn rhyw ffordd yn hyrwyddo'r cysyniadau sydd wedi'u corffori yn y dyletswyddau strategol a'r bwriad sydd wedi'i osod i'r Awdurdod, er yn fwy na thebyg, ni fyddant yn cyfeirio at y rhain yn uniongyrchol. Ceir enghraifft o negeseuon allweddol wedi deillio o'r Gyfarwyddiaeth Gefn Gwlad a Rheoli Tir yn ystod 2015 wedi ei atodi yn Atodiad I.

5.1 Trosglwyddo'r neges – yn Lleol

Mae tystiolaeth sylweddol ar draws yr Awdurdod o waith ymgynghorol ardderchog. Cymeradwyodd yr archwiliad annibynnol i "weithio rhanddeiliaid" a gynhaliwyd ar draws yr Awdurdod yn 2014 yr arfer da o ymgysylltu â rhanddeiliaid. Cafodd Cynllun y Llysgenhadon ei nodi fel enghraifft arbennig o dda o arfer da yn yr adroddiad. Mae hwn yn cynnwys hyfforddiant am dridiau ar gael i fusnesau yn y Parc i'w galluogi nhw i weithredu fel Llysgenhadon i ymwelwyr i'r Parc. Byddai angen diweddariad blynyddol i gynnal statws Llysgennad y cyfranogwr. Cafodd yr Awdurdod ei ganmol am ei ymdrech i fod yn fwy tryloyw drwy'r cyfarfodydd Gwe-ddarlledu.

Cymeradwyodd Cymorth Cynllunio Cymru ymarferion ymgynghori ardderchog yr Awdurdod ynglŷn â datblygiad eu Cynllun Datblygu Lleol diweddaraf – a gymeradwywyd yn Rhagfyr 2013 – i'w cynorthwyo i ymroi'n fwy effeithiol i'r broses gynllunio.

Mae'r Awdurdod yn cysylltu'n rheolaidd gyda chymdeithasau ar gyfer ffermwyr a phorwyr yn aml er mwyn trosglwyddo prosiectau partneriaeth. Mae dros 100 o wirfoddolwyr yn gweithio i'r Awdurdod; rhai yn lleol ac eraill yn teithio o Gaerdydd a Chasnewydd.

Dosberthir yn eang gylchlythyr cymunedol chwarterol sy'n cael ei gynhyrchu gan y tîm Cyfathrebu Cynaliadwy ac mae'n cael ei hysbysebu mewn papurau lleol.

Mae sylw i straeon newyddion lleol da yn sylweddol – mae 99% o'r straeon newyddion a roddir gan yr Awdurdod yn cael eu codi gan wahanol bapurau lleol.

Mae'r Awdurdod yn falch o'i record gadarnhaol a rhyngweithiol diweddar o ymgysylltu â'i rhanddeiliaid.

5.2 Trosglwyddo'r Neges – yn Genedlaethol a Rhyngwladol

Mae hunaniaeth yr Awdurdod fel sefydliad a'r Parc Cenedlaethol fel ardal warchoddedig a chyrchfan ymwelwyr yn dueddol o gael eu cyfuno'n un yn y sylw a geir yn Genedlaethol a Rhyngwladol. At ei gilydd, mae Parciau Cenedlaethol yn cael eu gweld fel lleoedd cadarnhaol a dymunol i fyw ynddynt ac i ymweld â hwy ble mae creaduriaid a chynefinoedd yn cael gwarchodaeth arbennig. Yn

genedlaethol, mae rolau'r gwasanaethau cadwraeth/twristiaeth/ymwelwyr yn dod yn amlwg. Ar y cyfan, mae staff yr Awdurdod (yn arbennig y wardeniaid) yn cael eu gweld yn gyfeillgar gyda gwybodaeth arbenigol i'w gynig - e.e. mae newyddiadurwyr yn mynd at wardeniaid i gael barn ar faterion cadwraeth. Gwaith y Tîm Cyfathrebu yn y cyswllt hwn yw sicrhau bod straeon priodol yn dangos rhagoriaethau arbennig y Parc Cenedlaethol a sut mae'r rhain yn cael eu gwarchod yn dod i sylw'r genedl ac weithiau'r byd.

Mae gwneuthurwyr rhaglenni'n cysylltu'n gyson â'r Tîm Cyfathrebu am straeon a chafwyd llwyddiant sylweddol wrth gynig straeon i *Countryfile*, *Coast and Country* ac mae Iolo Williams wedi cyflwyno rhaglenni ar y BBC ac S4C. Ar y cyfan, mae'r Tîm Cyfathrebu wedi bod yn mynd yr ail filltir a mwy i ddenu sylw rhyngwladol - e.e. pan enillodd y Parc statws Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol roedd hi'n stori rhyngwladol sy'n parhau i gael ei hadrodd yn y wasg genedlaethol; cafodd darganfyddiad Celf Craig o'r Oes Efydd sylw gan y BBC a gwelwyd yr hanes ymhob hysbyslen yn y DU, a bu'r cynllun anferthol i adnewyddu llwybrau a gafodd ei ariannu gan Lywodraeth Cymru yn 2015 a 2016 yn boblogaidd iawn gyda'r teledu a hysbyslenni. Gwyddwn fod ein cyfraniadau i'n tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol yn cael ymweliadau cyson gan y cyfryngau yn edrych am straeon gan eu bod yn aml yn rhannu'r wybodaeth gyda chynulleidfa ehangach fyth.

Mae'r Tîm Cyfathrebu yn gyson yn edrych am straeon i hyrwyddo cyfleu hunaniaeth ein Parc Cenedlaethol gan ddefnyddio radio a theledu, y wasg brintiedig a chyfryngau cymdeithasol i gyflwyno'r straeon i'r cyhoedd.

5.4 Egluro Cynlluniau Allweddol

5.4.1 Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol

Bwriadwyd Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol i fod y brif ddogfen reoli ar gyfer y Parc cyfan. Mae'r ddogfen hon wedi dod i rym ar ôl ymgynghori maith gyda thirfeddianwyr drwy'r Parc Cenedlaethol gan gynnwys prif sefydliadau cenedlaethol gyda chyfrifoldeb am diroedd o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol. Mae'r Cynllun Rheoli yn tarddu o'r polisiâu sydd yng Nghynllun y Parc Cenedlaethol ac mae'n rhoi amserlen gweithredu i'r Awdurdod ac i randdeiliaid eraill yn y Parc. Fel y crybwyllwyd uchod, roedd yr ymgynghoriad a ddaeth i ben yn 2015/16 yn asesu datblygiad y cynllun – mae cynllun diwygiedig ar gael yn 2016 gyda mwy o bwyslais ar ddarparu camau i gefnogi'r Bil Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol – a bydd hyn yn effeithio ar y prif negeseuon ar gyfer yr Awdurdod ar gyfer y dyfodol.

5.4.2 Y Cynllun Datblygu Lleol

Cafodd Y Cynllun Datblygu Lleol ei fabwysiadu yn 2013. Mae'n disgrifio pa ddatblygiad sy'n briodol dros gyfnod y cynllun. Mae llawer o'r polisiâu hyn wedi eu seilio ar bolisiâu cynllunio cenedlaethol ac felly mae cyfyngiad ar hyblygrwydd yr Awdurdod i'w newid. Er hynny, mae'n cynnwys rhai polisiâu a dynodiadau dadleuol sydd angen eu hegluro'n llawn i'r rheini y maent yn effeithio arnynt. Yn ei dro, mae gwell dealltwriaeth o'r polisiâu yn golygu y bydd unrhyw drafodaeth ynglŷn â'r Cynllun hwn a pholisiâu eraill yn y dyfodol yn cychwyn o gyd-ddealltwriaeth o'r safbwynt a gymerir – fydd yn sicr o fudd i'r rhai a effeithir. Ar y funud, mae staff cyfathrebu yn cydweithio â staff yr adran gynllunio i roi sylwadau a datganiadau i'r wasg fel bo'r angen ac i ysgrifennu colofn sydd i'w gweld mewn papurau lleol sy'n tynnu sylw at ac yn egluro gwahanol agweddau o'r broses gynllunio.

Mae prosiect peilot ar y gweill i greu daearyddiaeth y Parc Cenedlaethol i mewn i'r gêm ar-lein boblogaidd Minecraft - mae gan y prosiect hwn botensial sylweddol i drosglwyddo negeseuon allweddol gan Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol i gynulleidfa newydd.

Bydd Cyfathrebu yn parhau i weithredu i chwilio am gyfleoedd i drosglwyddo negeseuon allweddol gan Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd negeseuon yn egluro o dan ba amodau y caiff polisiâu eu herio a pha rai sy'n tarddu o bolisi Cenedlaethol. Mae gan swyddogion ac aelodau rôl allweddol mewn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n effeithiol, yn arbennig drwy ymateb yn wrthrychol yn hytrach nag yn amddiffynnol pan geir beirniadaeth.

Mae'r strategaeth hon yn argymhell bod yr Awdurdod yn trefnu hyfforddiant cyfryngol ar gyfer aelodau a staff priodol i'w helpu i ddeall a throsglwyddo negeseuon allweddol o'n polisiâu pwysicaf yn effeithiol.

4.6 Monitro pa mor dda rydym yn trosglwyddo'r neges

Mae gan yr Awdurdod gyllid cyfyngedig iawn ar gyfer y wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus. Mae talu am wasanaeth i fonitro sylwadau ar y newyddion ac ar-lein yn ddrud ac mae monitro toriadau o bapurau newydd yn fewnol yn gofyn am amser.

Ar y funud, mae'r adran yn dibynnu ar godi gwybodaeth drwy ddarllen papurau lleol a defnyddio Google news sy'n gwneud chwiliad o eitemau newyddion ar-lein ac yn anfon e-byst i 'gyfeiriadau' – mae'r gwasanaeth hwn yn aml yn codi cyfeiriadau yn y wasg genedlaethol sy'n cael eu hail-adrodd mewn straeon ar-lein felly mae'n ddangosydd da o ba straeon sy'n cyrraedd cynulleidfa eangach ond nid yw'n gwneud chwiliad o'r wasg leol sy'n llai tebygol o ymddangos ar-lein.

Fel rhan o weithio mewn partneriaeth gyda Phartneriaeth Cyrchfannau Cynaliadwy mae'r Tîm Cyfathrebu yn cynhyrchu adborth chwarterol i'r sector Dwristiaeth ac o hyn, mae straeon wedi ymddangos ac wedi cael eu codi yn ogystal ag ystadegau ar gyfer y wefan cyrchfannau a'r cyfryngau cymdeithasol. Nid oes gan yr adran ffordd ystyrlon o fonitro ac adolygu hyn. Mae sefydliadau eraill a chyrrff preifat yn monitro cyhoeddiadau sy'n cynnwys sôn am yr ardal, rhai ohonynt wedi deillio o straeon gan yr Awdurdod.

Mae'r strategaeth hon yn cynnig prosiect i weld pwy sy'n talu i fonitro unrhyw sylw gaiff ardal y Parc Cenedlaethol, i chwilio a oes posibilrwydd o gytuno ar adnodd a rennir.

5. Ymgorffori'r Iaith Gymraeg

Cytunodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar Gynllun yr Iaith Gymraeg cyfredol yn Medi 2013. Mae'r Cynllun yn dangos sut mae'r Awdurdod yn bwriadu ymroi i ddefnyddio'r iaith Gymraeg. Ers Ebrill 1, 2016, mae'r Cynllun yn cael ei ddisodli gan Safonau'r Iaith Gymraeg sy'n diogelu drwy ddeddf ddisgwyliadau'r wladwriaeth o'r Parc Cenedlaethol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Mae'r safonau'n pwysleisio'r disgwyl bod negeseuon i gael eu hanfon yn ddwyieithog os nad yw dewis iaith y derbynydd yn wybyddus.

Canfu cyfrifiad 2011 mai 10.3% oedd poblogaeth y siaradwyr Cymraeg o fewn y Parc cyfan. Cyfartaledd Cymru yw 19%. Er hyn, mae rhai ardaloedd o fewn y Parc Cenedlaethol - yn y Gorllewin yn fwyaf arbennig - sydd â thua 50% o siaradwyr Cymraeg ac mae rhai cymunedau â chanran uwch eto. Mae nifer o swyddi o fewn yr Awdurdod y penderfynwyd bod yn rhaid i ddeiliad y swydd fod yn ddwyieithog - Cymraeg a Saesneg. Mae'r rhan fwyaf o'r swyddi sy'n pennu bod yr iaith Gymraeg yn hanfodol wedi eu targedu at gyflenwi gwasanaethau yn yr ardaloedd daearyddol ble mae'r Gymraeg yn cael ei siarad fwyaf. Yn ychwanegol, mae'r

ddwy swydd derbynnydd yn ein Pencadlys wedi'u nodi fel swyddi 'Cymraeg yn hanfodol' ac mae'r ddwy swydd ar hyn o bryd (2016) yn cael eu llenwi gan siaradwyr Cymraeg.

Amser ysgrifennu'r ddogfen hon yn 2015/16 mae'r lefel o siaradwyr sy'n gallu'r Gymraeg o fewn staff yr Awdurdod yn uwch na'r cyfartaledd lleol ar gyfer y Parc Cenedlaethol a'r cyfartaledd cenedlaethol gyda 23% o'r holl staff yn cyfrif eu hunain yn Rhugl neu'n Ganolradd. Mae 11% ychwanegol wrthi'n dysgu'r Gymraeg.

Mae gan y Tîm Cyfathrebu rôl ganolog mewn gosod rhai targedau allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn goruchwyllo dylunio a phresenoldeb ar-lein yr Awdurdod. Mae'r Rheolwr Cyfathrebu yng ngofal cyllid ar gyfer anghenion cyfieithu corfforaethol yr Awdurdod, ond bydd angen adolygiad o'r ddarpariaeth hon yn dilyn cyflwyno'r Safonau. Mae disgwyl y bydd y Safonau yn cryfhau'r angen i'r Awdurdod ddefnyddio'r Gymraeg mewn ardaloedd lle nad yw'r gofyn yno ar hyn o bryd.

6 . Digidol neu brint – sut bydd y dyfodol yn edrych?

Mae'r sôn am dranc print wedi cael eu gorliwio – mae papurau newydd yn dal mewn bodolaeth ac mae'r defnydd o daflenni papur, mapiau a phamffledi yn dal yn parhau'n uchel. Mae doethinebau a dderbyniwyd am ymddygiad ymwelwyr ar hyn o bryd yn awgrymu eu bod yn edrych am wybodaeth ar-lein cyn ymweld ag ardal ac yn edrych am bapur ar ôl cyrraedd. Mae paratoi adnodd ar gyfer y sefyllfa bresennol yn golygu y dylai darpariaeth ar gyfer cynllunio cyn cychwyn ar drip fod yn bennaf ar-lein ac yna unwaith yn yr ardal byddai'r wybodaeth ar gael mewn pamffledi. Y cwestiwn wrth geisio darparu adnoddau'n effeithiol ar gyfer y sefydliad ymhen pum mlynedd yw a fydd y gofyn am ddeunyddiau mewn print yn dal i fod. I gyrraedd toriadau cyllidol mae Cynghorau ac Awdurdodau Lleol (gan gynnwys y Parc Cenedlaethol) yn cau Canolfannau Ymwelwyr. Mae'n ymddangos y bydd nifer o sefydliadau'n rhoi diwedd ar gynhyrchu pamffledi'n raddol i osgoi costau cynhyrchu a dosbarthu a bydd hynny'n cynyddu'r disgwyliad y bydd defnyddwyr yn cael gafael ar bob deunydd ar-lein.

Yn draddodiadol, mae'r ddarpariaeth leol o fand llydan a WIFI wedi bod yn rhy wan i fedru dibynnu arnynt, ond mae'r terfyn amser ar gyfer sicrhau band llydan cenedlaethol erbyn hyn yn cael eu cyrraedd yn nhrefi a phentrefi'r Parc Cenedlaethol. Ceir llawer siop goffi a gwesty sydd bellach yn cynnig WIFI am ddim. Er hyn, mae darpariaeth ffonau symudol yn dal i fod ar ei hôl hi o'i chymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r strategaeth hon yn cynnig bod swyddogion sy'n bwriadu trosglwyddo negeseuon allweddol i'r cyhoedd ac sydd yn y gorffennol wedi ffafrio cynhyrchu pamffledi, yn ystyried i ba raddau y gallant 'brawf fesur y dyfodol' wrth ddarparu eu gwybodaeth - e.e. tra byddai cynhyrchu llai o bamffledi newydd neu ail-brintio yn syniad da yn y tymor canolig, fyddai'n gall i gyllido - neu gydweithio â phartneriaid i gyllido - datblygiad mwy hir dymor o bresenoldeb ar y we am y wybodaeth, i'w defnyddio gyda ffonau symudol neu dabledi? Mae manylion beth a sut i ddatblygu yn gwestiynau llosg o ystyried bod dewisiadau'r funud yn newid mor aml. Bydd yn rhaid i unrhyw ddull gynnwys y gallu i ddiweddarau'r wybodaeth o fewn pa bynnag fformiwla y cytunir arni. Mae'r amrywiadau yn eu tro yn awgrymu pwysigrwydd dewis ffordd o fynd ati ar sail prosiect a chydweithio â phartneriaid, yn ddelfrydol yn cynnwys arbenigwr TG i ystyried sut i ddarparu gwybodaeth ar gael i bawb, hawdd ei ddiweddarau heb brint.

Mae'r strategaeth hon yn cynnig prosiect i ystyried sut orau i ddarparu gwybodaeth ar gael i bawb, hawdd ei ddiweddarau drwy gyfryngau eraill ac yn arbennig ar-lein. Er hyn,

mae'n rhagweld y galw am barhau i ddarparu adnoddau print sy'n cyflwyno negeseuon allweddol dros y Parc (dylai'r rhain ddefnyddio % uchel o bapur wedi'i ailgylchu a symud tuag at eu cynnal hwy drwy grantiau, gwerthiant a hysbysebu) am o leiaf y 3-5 mlynedd nesaf.

7. Gwefannau

Mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb llawn am un wefan – www.beacons-npa.gov.uk sy'n galluogi i'r cyhoedd ddod o hyd i wybodaeth am Gynllunio gan gynnwys ceisiadau cynllunio unigol, y Gronfa Datblygiad Cynaliadwy, mentrau'n ymwneud â chymunedau a gwybodaeth am ei reolaeth. Mae hefyd yn cynhyrchu llawer iawn o ddeunydd ar wefan partneriaeth - www.breconbeacons.org – yn hyrwyddo'r Parc Cenedlaethol fel cyrchfan ar ran y bartneriaeth Datblygiad Cynaliadwy ac wedi'i ddarparu mewn partneriaeth â Thwristiaeth Bannau Brycheiniog. Mae'r Tîm Cyfathrebu yn gweithio gyda chydweithwyr o bob adran o'r sefydliad i gynhyrchu a diweddarau deunydd ar gyfer y gwefannau hyn. Mae'r ddwy wefan wedi cael archwiliad yn ystod 2014/15 i wella eu hapêl, eu hwylustod a lle bo'n briodol, eu hymarferoldeb.

8. Cyfryngau Cymdeithasol – adeiladu proffil a chyrchfan farchnata'r Awdurdod

Ar y funud (2015), mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cynnal tudalennau ar Facebook, Twitter, Instagram ac You Tube.



8.1 Cynnwys

Mae'r Awdurdod yn cynnal tudalennau Cyfryngau Cymdeithasol gyda'r bwriad o gyfrannu at:

- Hyrwyddo mwynhad a dealltwriaeth o'r Parc Cenedlaethol (gan gynnwys ei hyrwyddo fel cyrchfan twristiaeth)
- Darparu negeseuon allweddol priodol i'r cynulleidfaoedd i'w postio ar dudalennau'r Cyfryngau Cymdeithasol - ar gyfer Facebook, Twitter ac Instagram cyflwynir y rhain drwy gyfrwng lluniau ynghyd â thestun byr
- Gweithio gyda phartneriaid a sefydliadau eraill i hyrwyddo a chefnogi prosiectau ar y cyd, e.e. gyda Chroeso Cymru yn hyrwyddo ymrwymadau lleol i ymgyrchoedd marchnata cenedlaethol a rhyngwladol y maent wedi eu symbylu.

Mae'r ddemograffeg ar gyfer gwahanol sianelau yn newid - yn nodweddiadol mae'r gynulleidfa sy'n defnyddio tudalennau arbennig yn newid dros gyfnod o amser o ddefnyddwyr ifanc i rai hŷ n. Fel mae sianel yn dod yn fwy poblogaidd ac yn cael mwy o ddefnydd, mae'r defnyddwyr iau yn ei gadael am un newydd ac mae'r broses yn dechrau eto. Golyga hyn bod yn rhaid i'r cynnwys gael ei dargedu'n briodol a thros amser, mae'n bosibl i'r Awdurdod ollwng un sianel er mwyn cyflwyno negeseuon drwy gyfrwng un arall. Bydd y Tîm Cyfathrebu'n defnyddio dadansoddeg Google a gwybodaeth farchnata am ddim i benderfynu pa sianelau fydd y rhai mwyaf perthnasol ac asesu'r ddemograffeg debygol ar eu cyfer. Mae marchnata cyrchfannau yn cymryd sylw o nodweddiad sy'n cael eu hamlygu mewn grwpiau targed sy'n fwyaf tebygol o weld y Bannau yn ddeniadol fel atyniad

gwyliau ac mae'r Tîm Cyfathrebu yn dylunio cyhoeddiadau priodol ar gyfer y grwpiau hyn. Mae annibyniaeth yn nodwedd allweddol o'r grwpiau targed hyn - mae llawer o'n cyhoeddiadau wedi eu hanelu at deithwyr annibynnol.

8.2 Gweithgaredd ac adnoddau ar gyfer cynnal tudalennau cyfryngau cymdeithasol

Mae'r adran sy'n dilyn yn crynhoi sefyllfa presenoldeb ar-lein yr Awdurdod ar bob un o'r llwyfannau hyn fel ag y mae o 2016 ac mae'r adran yn gorffen drwy gynnig beth sydd angen ei wneud.

8.2.1 Facebook

Penderfynwyd cadw un dudalen Facebook ar gyfer yr Awdurdod yn cael ei gynnal gan y Tîm Cyfathrebu ond gyda'r holl staff fyddai'n anfon eu straeon, lluniau a galwadau i weithredu yn cyfrannu tuag ato. Gall cyhoeddiadau gael eu trefnu ymlaen llaw ar gyfer cyfnod o wyliau a phenwythnosau ac os bydd angen, gall y Tîm Cyfathrebu bostio negeseuon yn uniongyrchol yn ystod y cyfnodau hyn.

Er mwyn gwneud y gorau o'r adnoddau prin sydd ar gael i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ac i sianelu ymdrechion y sefydliad i un cyfeiriad, mae Cyfathrebu wedi dilyn y polisi o gael un safle Facebook. Mae sefydliadau eraill wedi dod i ganlyniadau tebyg – yn arbennig Croeso Cymru – ac maent hwy wedi egluro pwysigrwydd cynnal safon cyhoeddiadau sy'n cael eu postio tra'n cynnig y cyfle i gyfrannu drwy'r tîm sy'n ei gynnal. Does dim cynlluniau i newid y sefyllfa hon ar hyn o bryd ond byddwn yn cadw golwg arni. Mae'r polisi wedi talu ar ei ganfed drwy ddenu cynulleidfadau at bostiadau Facebook ar-lein – ers Pasg 2016 cafwyd mwy na 18,000 hoffi, gyda thua 500 arall yn dilyn y dudalen bob mis.

Un o amodau cysylltiad yr Awdurdod â safle'r bartneriaeth Cyrchfannau - www.breconbeacons.org yw hyrwyddo cyhoeddiadau ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol, ond nid ydym yn mynnu cyhoeddi tudalennau neilltuol ar y safle a gall cyhoeddiadau priodol eraill gael sylw (cyn belled ag y bo'r arbenigedd technolegol ar gyfer hyn ar gael). Mae trafodaethau ar y gweill (2016) ynglŷn ag opsiynau sydd ar gael i roi cyhoeddusrwydd i gyhoeddiadau eraill ar dudalennau'r we gan gynnwys rhai gan brif fusnesau yn ardal y Parc Cenedlaethol.

Cyhoeddiadau cyfryngau cymdeithasol yr Awdurdod yw'r unig rai sy'n cael eu hyrwyddo ar safle'r Awdurdod ei hun – ar www.beacons-npa.gov.uk.

8.2.2 Trydar/Twitter

Mae'r Tîm Cyfathrebu wedi cymryd safbwynt gwahanol mewn perthynas â Thrydar ac wedi derbyn toreth o gyfrifon Trydar yn cynrychioli agweddau o waith yr Awdurdod. Mae cyfiawnhad am hyn wedi'i seilio ar natur y plattform - mae Trydar yn cynnig ei hun yn fwy effeithiol i fyrdd o gyhoeddiadau cyfryngau cymdeithasol gan ei fod yn fwy cyffredin i gyhoeddiad fod yn gysylltiedig ag unigolyn fel arfer yn defnyddio'i ffôn symudol ei hun. Mae Trydar yn cael ei weld yn fwy 'untro' na phostiadau Facebook - maent yn ymddangos fel rhan o'r cyhoeddiadau cyffredinol y mae unigolion sy'n dilyn y Parc yn eu derbyn. Mae Cyfathrebu yn cynnal un o'r cyhoeddiadau cyfryngau cymdeithasol ac yn 2015 mae cyhoeddiadau hefyd yn bodoli ar gyfer tîm y Wardeniaid, Twristiaeth Gynaliadwy a Chanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol. Mae'r Tîm Cyfathrebu yn gweithio gyda chydweithwyr i sicrhau bod cyhoeddiadau cyfryngau cymdeithasol yn parhau i fod yn berthnasol i hybu prif negeseuon y Parc Cenedlaethol ac weithiau maent wedi cymryd y cyfrifoldeb o drydar ar gyhoeddiadau ar-lein pan nad oedd y swyddog arferol yn gallu gwneud hynny.

8.2.3 Youtube

Mae'r cynnwys ar gyfer sianel Youtube wedi cael ei ddatblygu'n bennaf drwy gytundeb uniongyrchol gan yr Awdurdod ar gyfer prosiectau – cyfrannodd Twristiaeth Gynaliadwy y rhan fwyaf o'r deunydd. Yn ogystal â chyhoeddiadau ar Youtube mae'r Awdurdod yn hyrwyddo ffilmiau unigol drwy ein gwefan a sianelau cyfryngau cymdeithasol eraill – e.e. mae tudalennau Awyr Dywyll yr Awdurdod ar y ddau safle a thudalennau am Barc Gwledig Craig-y-nos wedi gosod fideos.

8.2.4 Minecraft

Mae'r tîm TG yn cydweithio gyda'r tîm Cynllunio i redeg prosiect peilot yn defnyddio'r gêm ar-lein boblogaidd - Minecraft - gan ddefnyddio datblygiad Cynllun Cymunedol ar gyfer y Gelli Gandryll. Mae i'r cynllun amcanion uchelgeisiol i gofnodi manylion daearyddol y Parc Cenedlaethol i gyd o fewn y byd ar-lein. Byddai hyn yn peri bod yr Awdurdod yn gallu cysylltu gyda chymunedau ynglŷn ag effeithiau posibl unrhyw gynlluniau perthnasol i ardaloedd penodol, drwy wyntyllu'r syniad yn y byd ar-lein yn gyntaf. Mae'n cynnwys cynulleidfa iau wrth ystyried dyfodol y Parc Cenedlaethol gan fod y ddemograffeg gyfredol yn awgrymu mai plant yn eu harddegau yn bennaf sy'n chwarae Minecraft. (ystadegau gan <http://www.quora.com/What-are-the-demographics-of-Minecraft-players>).

8.2.5 Gwe-ddarlledu a Sgwrsio Byw

Mae'r Awdurdod yn darlledu ar y we o'r pwyllgorau sy'n gwneud y prif benderfyniadau ac mae'r Awdurdod wedi bod yn cynnal cynllun peilot fyddai'n caniatáu i wylwyr sgwrsio'n fyw â'i gilydd yn ystod y dadleuon. Mae aelodau wedi penderfynu peidio â chael cysylltiad gyda'r cyhoedd drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfarfodydd - ni fydd y rheini sy'n cael mynediad i'r system yn gallu siarad yn uniongyrchol â'r pwyllgor. Fel mae'r ffigurau a nodwyr yn gynharach yn yr adroddiad hwn (tud 6) yn dangos, mae hwn yn gynnig poblogaidd iawn ac mae'r adran Gyfathrebu'n cysylltu gyda Gwasanaethau Democraataidd i ystyried sut i ddarparu mwy o ryngweithio drwy gyfrwng gwe-ddarlledu.

8.3 Presenoldeb ar-lein aelodau

Gallai aelodau o'r Awdurdod gyfrannu mwy i bresenoldeb ar-lein - mae opsiynau eisoes ar gael iddynt gynnig ymgynghoriad, barn ac i gysylltu â'r cyhoedd. Cynnig y strategaeth hon yw adnabod cyfleoedd allweddol i beilota'r fath ymgymeriad a phrofi i weld faint o frwdfrydedd sydd amdano.

8.4 Presenoldeb dwyieithog ar-lein i'r Awdurdod

Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg yn mynnu cyhoeddiadau cyfryngau cymdeithasol dwyieithog yn ogystal â gwefannau hollol ddwyieithog – bydd cyhoeddiadau'r cyfryngau cymdeithasol yn dechrau darparu drwy gyfrwng y Gymraeg o Ebrill 1, 2016. Mae www.beacons-mpa.gov.uk eisoes ar gael yn ddwyieithog. Mae'r Awdurdod wedi cytuno gyda Chomisynydd yr Iaith Gymraeg y bydd safle cyrchfan www.beacons-mpa.gov.uk yn cael ei gyflwyno'n ddwyieithog o Fedi 2016.

8.5 Camau gweithredu'r Cyfryngau Cymdeithasol

Datblygu hybu cyhoeddiadau cyfryngau cymdeithasol priodol gyda phartneriaid ar y wefan

Parhau i fod yn rhagweithiol wrth edrych am ddeunydd ar gyfer cyhoeddiadau ar-lein gan staff/aelodau a gwirfoddolwyr i annog diddordeb, cyfleoedd hyrwyddo a darparu cynnwys.

Mynd ar ôl defnydd eangach o we-ddarlledu a sgwrsio ar-lein

Rhedeg prosiectau peilot ar ddefnydd aelodau o Gyfryngau Cymdeithasol

Cyrraedd safonau rheoliadau'r Iaith Gymraeg wrth ddarparu ar gyfer y Cyfryngau Cymdeithasol.

9. Ffilmio yn y Bannau

Mae'r Awdurdod yn hyrwyddo ffilmio o fewn ardal y Parc Cenedlaethol gan weithio'n uniongyrchol gyda gwneuthurwyr ffilmiau a chyda Sgrin Cymru. Mae ffilm yn hyrwyddo tirwedd eiconig y Parc tra'n cynnig mantais economaidd i'r ardal. Mae tystiolaeth sylweddol i brofi bod ffilm hir yn effeithiol fel lluosydd economaidd ar gyfer busnesau lleol fel llety, gwasanaeth arlwygo allanol, llogi offer ayb.

Mae'r Awdurdod hefyd yn gosod ei dir ei hun ar log ar gyfer ffilmio am ffioedd sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gwaith cadwraeth. Mae'r Tîm Cyfathrebu'n hybu ffilmio ar ei dir ei hun ac mewn mannau eraill - gan weithio'n agos gyda rheolwyr lleoliadau i helpu i ddod o hyd i dirwedd sy'n cyd-fynd â'r hyn y maent yn chwilio amdano. Mae gan y Tîm Cyfathrebu berthynas gwaith agos iawn gyda thîm y Warden i ddarparu'r gwasanaeth hwn a chodir ffi fel bod y wardeniaid yn gallu gweithio ar ffilmio yn y modd yma. Pan ddoir o hyd i set addas gall swyddogion fod â rhan mewn sicrhau caniatâd i'r ffilmio ddigwydd - gan gynnwys rhoi cais am ganiatâd Gweithrediadau Tebygol o Niweidio mannau o Ddiddordeb Arbennig (OLDSI) gan Gyfoeth Naturiol Cymru am y weithred arfaethedig. Yn olaf, byddwn yn cynnig cytundeb i'r gwneuthurwyr ffilmiau ac yn rhoi copi i'r warden er mwyn sicrhau bod y telerau a nodwyd yn y cytundeb yn cael eu cadw. Yn olaf, anfonir anfonebau am y prosiect.

Mae trefnu ffilmio yn mynd ag amser ond fe wêl yr Awdurdod hwn yn bwysig er mwyn hyrwyddo ac yn economaidd.

Yn gyfredol (2015/16) mae ffocws cenedlaethol ar annog ffilmio yng Nghymru ac mae'r strategaeth hon yn cynnig prosiect gyda Sgrin Cymru i ystyried sut y gellir denu bod canran fwy o'r ffilmio yn digwydd yn y Parc.

10. Digwyddiadau

Mae'r Awdurdod wedi newid ei safbwynt ar ddigwyddiadau dros y 10 mlynedd ddiwethaf. Tan 2006/07 roedd yr Awdurdod yn cefnogi llawer o sioeau lleol a ffeiriau gyda stondin yn rhoi gwybodaeth am waith yr Awdurdod, fel arfer yn cael ei staffio gan y warden lleol, staff addysg a/neu'r swyddog gwybodaeth. Yn draddodiadol, roedd tri Pharc Cenedlaethol Cymru yn uno i gael stondin ar faes y Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod. Ers 2012, mae'r Awdurdod wedi peidio â mynychu'r sioeau lleol a chytunodd y Parciau i beidio â chael stondin gyda'i gilydd yn Sioe Frenhinol Cymru. Pan mae un o'r Cynghorau Sir gyda thir o fewn y Parc Cenedlaethol yn noddî'r Sioe, parheir i'w chefnogi. Cytunwyd i gefnogi'r Eisteddfod pan fyddai'n cael ei chynnal mewn man digon agos yn ddaearyddol i fod yn briodol i wneud hynny a byddai'r Tîm Cyfathrebu'n gyfrifol am ddarparu'r presenoldeb corfforaethol. Cefnogir digwyddiadau eraill gan yr Awdurdod fel bo'r blaenoriaethau'n newid.

Mae'r Tîm Cyfathrebu yn trefnu bod presenoldeb yng ngwersyll atyniad y Green Man (a gynhelir am dridiau cyn yr ŵ yl) ac ers 2014 maent wedi helpu i gyd-gordio a hysbysebu digwyddiadau'n cael eu cynnal ym Marc Gwledig Craig-y-nos.

Mae'r Tîm Cyfathrebu hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Arlwygo a Chanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol i farchnata digwyddiadau maent yn eu trefnu gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a phresenoldeb ar y we. Mae Rheolwr y Tîm Cyfathrebu ar hyn o bryd yn cynrychioli gwyliau bwyd yr Awdurdod ar Grŵp Cenedlaethol.

O ran hyrwyddo, mae'r Tîm Cyfathrebu'n cefnogi Twristiaeth Bannau Brycheiniog drwy sicrhau bod digwyddiadau lleol yn cael eu hysbysebu yng nghyhoeddiadau digwyddiadau tudalennau cyfryngau

cymdeithasol www.breconbeacons.org ac ar gyfer digwyddiadau mae swyddogion yr Awdurdod yn dymuno eu hyrwyddo – e.e. Gŵ yl Geoparc – maent yn gweithio'n agos i ennyn diddordeb a hysbysebu digwyddiadau'n llwyddiannus drwy gyfrwng y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r strategaeth hon yn cynnig, fel mae cyllid ac adnoddau'n lleihau, dylai'r Tîm Cyfathrebu barhau i hyrwyddo'r Awdurdod mewn digwyddiadau allweddol sy'n cael eu trefnu gan eraill, yn ogystal â dod i adnabod a chefnogi unrhyw gyfleoedd newydd sy'n anelu at grwpiau targed rhanddeiliaid.

I I. Rôl dylunio graffeg a ffotograffiaeth

Mae Cyfathrebu'n goruchwyllo brandio, dylunio graffeg a llyfrgell ffotograffiaeth yr Awdurdod. Ceir crynodeb byr o'r gwaith isod a chrynoir pa weithgareddau sy'n deillio o'r ardal hon ar ddiwedd yr adran.

I I.1 Fframwaith Dylunio Graffeg

Yn dilyn dileu swydd y Dylunydd Graffeg yn 2014 cymerodd y Rheolwr Cyfathrebu'r cytundeb fframwaith cyntaf ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol (o 2015-2017) i ddarparu datrysiad tair blynedd effeithiol ar gyfer yr adran ddylunio graffeg.

Mae'r fframwaith bellach ar ei thraed ac mae'r Tîm Cyfathrebu yn gweithio gyda'r dylunwyr i'w cynorthwyo i ddefnyddio adnoddau dylunio graffeg yr Awdurdod (mapiau, delweddau, brands ayb) mor effeithiol â phosib ac o fewn trwyddedau hawlfraint i gynyddu a gwella wyneb cyhoeddus yr Awdurdod. Mae hyn yn gofyn am ymroddiad dyfeisgar gan y Tîm Cyfathrebu na ddisgwylir iddo leihau yn ystod cyfnod y fframwaith. Roedd gosod y fframwaith ei hun yn gofyn am lawer iawn o waith a bydd yn cael ei osod eto yn 2017.

I I.2 Ffotograffiaeth

Mae darparu lluniau newydd ac adnewyddu trwyddedu ar gyfer grŵp o luniau wedi eu tynnu gan ffotograffwyr unigol yn parhau i fod yn rôl bwysig i'r adran Gyfathrebu. Mae delweddau'n cael eu comisiynu ac weithiau'n cael eu cymryd gan adrannau eraill ond rhaid i'r rhain gael eu hymgorffori yn yr adnoddau canolog a rhaid i berchnogaeth yr hawlfraint gael ei gofnodi'n glir a'i barchu. Ers 2016 mae prosiect yn cael ei drafod yn TG i ddarparu llyfrgell luniau eang i'r Awdurdod ar y we.

Mae gofyn corfforaethol i sicrhau bod ffotograffiaeth yn cynnwys cynrychiolaeth o bob math o bobl, yn cynnwys pobl ag anabledd a'r rheini o gymunedau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig. I'r perwyl hwn, mae'r Awdurdod wedi gweithio gyda'r Prosiect Mosaic i ddarparu ffotograffiaeth ar gyfer defnydd yr Awdurdod – mae'r gwaith hwn yn parhau.

Does dim swydd Dylunydd Graffeg gan yr Awdurdod bellach. Mae rhan sylweddol o'r gwaith a wnaed gan ddeiliad y swydd honno yn dal i gael ei wneud. Er mwyn cynnal adnodd ffotograffiaeth yr Awdurdod ar gyfer y dyfodol bydd y Tîm Cyfathrebu yn gweithio gyda TG i weld sut orau i gatalogio a gwarchod y casgliad presennol a chyda chydweithwyr, rhagfynegi'r gofyn tebygol am luniau ar bynciau arbennig. Byddwn wedyn yn cytuno sut orau i gael gafael arnynt o orielau sy'n bodoli'n barod ac os bydd raid, comisiynnu gwaith newydd gyda'r hawlfreintiau priodol. Bydd y Tîm Cyfathrebu'n parhau i weithio gyda sefydliadau eraill fel Croeso Cymru a Phowys i geisio dod i gytundeb ynglŷn â hawliau i ddefnyddio comisiynau o fewn y Parc ac i ddylanwadu ar ble mae delweddau'n cael eu tynnu.

11.3 Brandio

Wrth gyflwyno'i hun, mae'r Awdurdod yn defnyddio'i frand corfforaethol ei hun sy'n ymgorffori brand Breathing Spaces Prydain ac mae canllawiau ar gael ar gyfer defnyddio'r brand corfforaethol. Yn 2014 gweithiodd yr Awdurdod gyda phartneriaid i ddatblygu brand ar gyfer busnesau a sefydliadau oedd yn dymuno hyrwyddo eu dolennau i'r cyrchfannau a chafodd hwn ei brofi gan grŵpiau o ddefnyddwyr. Bellach caiff ei adnabod fel y "brand cyrchfannau". Mae gofyn integreiddio elfennau o'r brand cyrchfannau i frand yr Awdurdod ei hun a bydd angen prosiect i gynhyrchu'r templedi a'r canllawiau perthnasol ar gyfer hyn.

Defnyddir brandiau eraill gan yr Awdurdod. Mae gan Geoparc Fforest Fawr ei ganllawiau brand a steil ei hun. Mae'r Parc Cenedlaethol hefyd yn Warchodfa Ryngwladol Awyr Dywyll ddynodedig ac mae edrychiad a theimlad wedi'u datblygu i hysbysebu hyn. Mae gan Gynllun Llysgenhadon y Parc Cenedlaethol eu bathodyn eu hunain.

11.4 Cynrychiolaeth

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cynnig gwasanaeth i bob preswlydd ac ymwelydd ac mae'n bwysig bod hyn cael ei adlewyrchu mewn ffotograffiaeth a phynciau trafod sy'n cael eu gweld ym mhresenoldeb y Parc Cenedlaethol ar-lein ac mewn print. Dylai anghenion amrywiol y boblogaeth y mae'r Awdurdod yn ei gwasanaethu gael eu hystyried wrth gynllunio, dylunio a dosbarthu deunyddiau, printiedig ac ar-lein. Dylai ffotograffau gynnwys cynrychiolaeth o genedligrwydd, oedran, rhyw a gallu gwahanol. Dylai'r wybodaeth gael ei chyflwyno mewn iaith hawdd ei deall heb acronymau.

11.4 Crynodeb dylunio graffeg

Mae'r strategaeth hon yn cydnabod tra mae darpariaeth o waith dylunio graffeg yr Awdurdod wedi newid, rydym yn parhau i fod ag angen am hunaniaeth gorfforaethol ar draws y sefydliad a rheolaeth effeithiol o ddylunio graffeg i gynhyrchu hyn. Mae angen rheolaeth ar y fframwaith fel y disgrifir uchod.

Bydd angen i dri phrosiect gael eu sefydlu er mwyn darparu yn ystod cyfnod y strategaeth:

- 1. Prosiect i gynhyrchu canllawiau a thempledi i integreiddio'r brand cyrchfannau i frand yr Awdurdod ei hun**
- 2. Prosiect gyda TG i drefnu'r cydlyn, defnydd a rheolaeth fewnol o'r adnodd ffotograffiaeth**
- 3. Prosiect i adnabod anghenion ffotograffiaeth am y tair blynedd nesaf a chynllunio sut i ddarparu ar gyfer hyn**

12. I gloi

Mae Cyfathrebu ynglŷn â gwaith yr Awdurdod hwn yn rhan o swydd bob dydd pob aelod o staff a phob Aelod o'r Awdurdod ac i raddau, mae'n gyfrifoldeb ar ein gwirfoddolwyr. Bwriad y strategaeth hon yw cynnig trosolwg strategol o ble dylai'r Awdurdod ganolbwyntio ei adnoddau, ardaloedd ble dylai'r Awdurdod wneud mwy o waith i sicrhau ei fod yn cyrraedd ei lawn botensial ac i gynnig mewnwelediad ar sut mae'r tîm cyfathrebu yn gweithio i ddarparu amcanion cyfathrebu'r Awdurdod dros y bum mlynedd nesaf.

Atodiad I

Enghreifftiau o negeseuon allweddol wedi deillio o'r Gyfarwyddiaeth Cefn Gwlad a Rheoli Tir

Pwnc	Negeseuon allweddol i'w hyrwyddo
Awyr Dywyll	Dewch i fwynhau'r awyr dywyll heb ddim llygredd golau uwchben y Parc Cenedlaethol yn ein Gwarchodfa Awyr Dywyll
Defnyddio Llwybrau Tramwy	Ceir llawer o deithiau cerdded yn y Parc Cenedlaethol – rhestrir hwy'n fanwl ar ein gwefan – yn cynnwys pob lefel - hawdd cyrraedd atynt a theithiau yn yr ucheldir Rydym yn atgyweirio llwybrau'r ucheldir yn gyson drwy hedfan cerrig yno a gweithio gyda gwirfoddolwyr i wella'r llwybrau tramwy
Cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau	Croeso i bawb ddod i fwynhau xxx
Hyrwyddo - Llysgenhadon a chlystyrau Cynghreiriau Gwledig	Mae'r Parc Cenedlaethol y lle croesawus ble mae'r preswylwyr yn eiddgar i'ch cyfarfod. Rydym wedi defnyddio nawdd Ewropeaidd i'w hyfforddi a rhoi hyd yn oed mwy o wybodaeth arbenigol iddynt.
Prosiect Mosaic, Prosiect Ysbrydoliaeth a Phencampwyr	Mae'r Parc Cenedlaethol ar gael i bawb ei fwynhau ac rydym wrthi'n gweithio gyda grŵp piau nad ydynt ar hyn o bryd yn elwa, i'w cefnogi hwy i ddod i ymweld â ni.
Cerdded Afon/Ceunant/Hafn	Nid ydym yn hyrwyddo cerdded afon o fewn y Parc nac yn caniatâu i gwmnïau ffilm ei ffilmio.
Rhywogaeth a warchodir	Mae'r Parc Cenedlaethol yn gartref i xxx rhywogaeth a warchodir ac mae'n ffynnu yma/neu mae arno angen cymorth pellach i ffynnu yma. Gallwch chi helpu drwy xxx (e.e. cais ar i'r cyhoedd weithredu)
Rhywogaethau goresgynnol ac afiechydon ymledol	Mae tirwedd warchoddedig y Parc Cenedlaethol yn cael ei fygwth gan xxx ac mae angen eich cymorth chi i helpu i'w warchod/rydym am i chi wybod ein bod yn ymdrechu i'w warchod drwy xxx
Rhywogaethau newydd, prin a ddarganfuwyd	Mae xxx wedi ei ddarganfod am y tro cyntaf ar dirwedd warchoddedig y Parc Cenedlaethol.
Gyrru anghyfreithlon oddi ar y ffordd	Os gwelwch yn dda, peidiwch â gyrru oddi ar y ffordd ar dir warchoddedig – gallai gwneud hyn arwain at erlyniad. Mae wardeniaid Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gweithio gyda'r heddlu lleol i ddileu gyrru anghyfreithlon oddi ar y ffordd ac i erlyn troseddwyr. Os gwelwch yn dda, wnewch chi ein hysbysu ar y we am yrru anghyfreithlon oddi ar y ffordd. Peidiwch â phrynu beic cwad i'ch plentyn y Nadolig hwn – mae gyrru oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon yn y Parc Cenedlaethol.
Tanau	Mae'r Wardeniaid yn llosgi dan reolaeth ar adegau penodol o'r flwyddyn. Mae tanau a gychwynnir yn anghyfreithlon yn difrodi poblogaethau adar sy'n nythu ar y ddaear. Mae'r Awdurdod yn gweithio gyda'r heddlu lleol a'r gwasanaeth tân i ddiffodd tanau ac i ymchwilio i achosion o danau bwriadol.
Addysg	Mwynhewch y llun hwn o blant lleol wrth eu boddau'n dysgu am ardal warchoddedig y Parc Cenedlaethol.
Wardeniaid	Mae ein Wardeniaid yn brysur yn edrych ar ôl y dirwedd warchoddedig hon a'r creaduriaid a'r planhigion sy'n byw yma, er budd y cynefin ac er mwyn i chi fwynhau. Mae ein Wardeniaid yn gweithio gyda gwirfoddolwyr yn darparu prosiectau i warchod y Parc.

Gwirfoddolwyr	Mae ein gwirfoddolwyr anhygoel wedi darparu'r prosiect xxx sy'n gwarchod y dirwedd drwy xxx.
Cronfa Datblygiad Cynaliadwy	Gwnaed y prosiect gwych hwn yn bosibl gyda help gan y Gronfa Datblygiad Cynaliadwy ac mae'n helpu i gynnig dyfodol hirdymor posibl i (grŵp/ased/cymuned)